
# Effaith ein gwaith: Haf 2025



**A ddylid caniatáu ffonau clyfar mewn ystafelloedd dosbarth? Ydych chi'n gwybod pwy yw'r Prif Weinidog? Pa mor lân yw toiledau eich ysgol?**

Dyma rai o'r cwestiynau rydyn ni wedi'u gofyn i blant a phobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf fel rhan o'n hadnodd **Mater y Mis**. Mae eu barn ar y materion amserol hyn wedi siapio ymatebion y Comisiynydd i ymgynghoriadau, wedi ei helpu i rannu barn plant yn y cyfryngau, ac wedi ysgogi gwaith dilynol gyda phlant i ymchwilio'n ddyfnach y tu ôl i'r ffigurau.



**Ein blwyddyn mewn rhifau a phenawdau.**

***Cliciwch ar y llun i weld crynodeb o'n Mater y Mis am y flwyddyn 24/25.***

Darllenwch ymlaen am grynodeb o'r hyn rydyn ni wedi ei glywed dros y misoedd diwethaf ar **ymwybyddiaeth gwleidyddol, bwlio, ac amser sgrîn.**

Mae gwybodaeth hefyd am ein tudalen safbwynt newydd ar **ymddygiad mewn ysgolion**, **arolwg o strwythurau cyfranogiad**, a **themâu o'n gwasanaeth cyngor** dros y cyfnod diwethaf.

complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

YMWYBYDDIAETH GWLEIDYDDOL

# Beth rydyn ni wedi clywed gan blant dros y tri mis diwethaf

Ym mis Mai, gyda blwyddyn i fynd tan etholiad y Senedd, gofynnon ni i blant a phobl ifanc am le maen nhw'n derbyn eu gwybodaeth ar wleidyddiaeth, pa gyngor sydd ganddyn nhw i wleidyddion o ran cyfathrebu â nhw, a'u hymywyddiaeth o dau aelod gwleidyddol allweddol. Dyma beth clywon ni:

- Mae gan bobl ifanc ddiddordeb mewn dysgu am yr hyn y mae gwleidyddion eisiau ei newid yng Nghymru, ond maen nhw eisiau dysgu amdano mewn ffordd sy'n gafaelgar, syml i'w ddeall, ac yn berthnasol iddyn nhw.

- Mae nifer uchel o blant a gwblhaodd yr holiadur yn defnyddio cynnwys newyddion yn yr ysgol: dywedodd 68% o blant oed cynradd eu bod yn gwylio, darllen neu'n gwrando ar y newyddion yn yr ysgol, o'i gymharu â dim ond 34% yn y cartref. Dywedodd 75% o blant a ddywedodd eu bod yn gwylio, yn darllen neu'n gwrando ar newyddion eu bod yn gwylio rhaglen newyddion y BBC Newsround.

- Mae gwahaniaeth clir rhwng nifer y plant a'r bobl ifanc oedd yn gwybod pwy oedd Prif Weinidog Cymru (8% o'r uwchradd a 15% o'r cynradd), a'r nifer oedd yn gwybod pwy oedd Prif Weinidog Prydain (49% o'r uwchradd a 48% o'r cynradd) yn ein holidaur ciplun. Er nad yw ein canlyniadau yn gynrychioliadol yn genedlaethol, maent yn paentio darlun tebyg i lefelau blaenorol o ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth ddatganoledig. Fel y daeth Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd i'r casgliad yn ei hadroddiad diweddar, mae angen ymdrech gydgysylltiedig a pharhaus – rhaid i hyn gynnwys gwella llythrennedd gwleidyddol plant a phobl ifanc.

Darllenwch yr adroddiad llawn

# GWRTHFWLIO

Bwlio oedd ein ffocws ym mis Mehefin, gyda Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau gwrth-fwlio newydd ar gyfer ysgolion. Mae bwlio yn fater blaenoriaeth gyson i blant a phobl ifanc, ac mae wedi bod yn ffocws nifer o ddarnau o waith i'r Comisiynydd Plant dros y blynyddoedd.

Dyma rai o'r pethau allweddol o'n holiadur:

Roedd nifer sylweddol o blant (27%) yn amymwybodol o bolisi gwrth-fwlio eu hysgol ac doedd bron i hanner (47%) ddim yn gwybod a oedd fersiwn i blant.

Sgoriodd fformatau rhyngweithiol yn uchel gan blant pan ofynnwyd iddynt sut hoffen nhw ddysgu am bolisi gwrth-fwlio eu hysgol, gyda 56% yn galw am fideos esboniadol, dros hanner (51%) eisiau cyflwyniadau mewn gwasanaeth a 44% yn awgrymu gemau sy'n eu helpu i ddeall y polisi.

Dywedodd ein data hefyd fod nifer o bobl ifanc (35%) yn meddwl t dylai polisi gwrth-fwlio gynnwys gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n fwli. Mae'n amlwg bod y wybodaeth ar gyfer y math hwn o gefnogaeth ar goll o'r canllawiau diweddaraf.

> ***Os oes rhaid i ni gael lle diogel, mae hynny'n profi nad oes camau'n cael eu cymryd gan y dylai'r ysgol fod yn lle diogel.***
>
> Person ifanc LGBTQ+ Gogledd Cymru

Yn ogystal â'n holiadur, rydyn ni hefyd wedi cyfarfod â grwpiau o bobl ifanc i glywed eu barn ar y canllawiau newydd ac ar fesurau gwrth-fwlio cyfredol. Mae themâu trafod wedi cynnwys:

- sicrhau bod y canllawiau'n rhoi sylw cyfartal i bob dysgwr
- sicrhau cefnogaeth gyson mewn ysgolion
- cymryd bwlio o ddifrif
- cymorth i rieni ar gefnogi pobl ifanc
- rôl rhieni

Bydd y Comisiynydd yn rhannu barn plant gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hymgynghoriad ar ganllawiau newydd.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# AMSER SGRIN

Mae ein holiadur presennol, sy'n rhedeg tan ddiwedd mis Awst, wedi codi rhai pwyntiau pwysig ar amser sgrin a nodweddion lles o fewn apiau.



***Dyma beth rydyn ni wedi'i glywed hyd yn hyn:***

- Mae 20% o'r plant sy'n ymateb i'r arolwg wedi dweud eu bod yn treulio 7 awr neu fwy y dydd ar-lein
- Mae 70% a ddywedodd eu bod yn defnyddio TikTok wedi diffodd botwm o fewn yr ap sy'n cyfyngu'r defnydd i 1 awr y dydd
- Byddai 30% yn cefnogi terfyn 2 awr ar apiau cyfryngau cymdeithasol
- Roedd 32% yn meddwl eu bod wedi treulio'n rhy hir ar ddyfeisiau

Rhannodd y Comisiynydd y canfyddiadau cynnar hyn mewn darn newyddion a oedd yn nodi dechrau rheolau newydd ar gyfer cwmnïau digidol ar gadw plant yn ddiogel ar-lein, gan bwysleisio'r angen am ffocws cymdeithasol ar sicrhau cydbwysedd iach rhwng amser sgrin a gweithgareddau all-lein.

# YMDDYGIAD MEWN YSGOLION

Mae ymddygiad disgyblion wedi bod yn bwnc cynyddol amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda llawer yn rhannu barn ar raddfa'r mater ac atebion posibl.

Mewn papur safbwynt newydd, mae'r Comisiynydd yn ystyried safbwyntiau allweddol ar draws y sector, yn edrych nôl ar Uwchgynhadledd Ymddygiad Dysgwyr Llywodraeth Cymru, ac yn cyflwyno ei galwadau am newid.

***Darllenwch y papur***

# Strwythurau cyfranogi




**I ba raddau gall plant ddweud eu dweud yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw? Mae'n gwestiwn allweddol rydyn ni'n ei ofyn eleni fel rhan o'n hadolygiad cenedlaethol o strwythurau cyfranogiad lleol yng Nghymru.**

**Hyd yn hyn, mae 18 o awdurdodau lleol wedi ateb holiadur am gyfranogiad yn eu hardaloedd: sut mae'n cael ei gyflawni, sut mae'n cael ei werthuso, a'r rhwystrau.**

## BETH RYDYN NI WEDI'I GLYWED HYD YN HYN?

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym mai rhai rhwystrau cyffredin i gymryd rhan yw:

- Capasiti a sgiliau staff
- Strwythurau mewnol a ffyrdd o weithio
- Hyder pobl ifanc i gymryd rhan
- Materion ymarferol fel argaeledd teithio, neu amser i gymryd rhan



## Y CAMAU NESAF

Rydyn ni’n cwrdd wyneb yn wyneb â phob awdurdod lleol dros y misoedd nesaf i ymchwilio'n ddyfnach o dan ymatebion yr arolwg. Ein nod yw hyrwyddo arfer da, tynnu sylw at y rhwystrau i waith cyfranogiad effeithiol a'r atebion, ac yn y pen draw gwella profiadau plant o gyfranogiad ledled Cymru.



## BYRDDAU CRWN IECHYD MEDDWL - ADRODDIAD WEDI'I GYHOEDDI

Ym mis Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025, cynhalion ni 4 sesiwn grŵp ffocws gyda phobl ifanc; a 3 digwyddiad bwrdd crwn gyda gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r sector statudol a'r trydydd sector, gan drafod 5 thema allweddol ar **iechyd meddwl.**

- Diffiniad ac iaith ynghylch iechyd meddwl, a lles emosiynol
- Cefnogaeth yn y gymuned ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol
- Cefnogaeth yn yr ysgol ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol
- Gwasanaethau a chymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth
- Blaenoriaethau a negeseuon allweddol i'r Comisiynydd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru

Darllenwch ein hadroddiad dilynol a'n pum argymhelliad allweddol i Lywodraeth Cymru.

## GWASANAETH CYMORTH A CHYNGOR

### GWAITH ACHOS DIWEDDAR

**Mynediad at chwarae, a thrafnidiaeth ysgol**

Gan arwain at fisoedd yr haf, rydyn ni wedi gweld cynnydd mewn rhieni yn cysylltu gyda phryderon am **fynediad at gyfleoedd chwarae i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau**. Mae llawer o deuluoedd hefyd yn poeni am fynediad at drafiniaeth ysgol cyn y flwyddyn academaidd newydd, yn dilyn toriadau mewn darpariaeth ar draws awdurdodau lleol. Gallwch ddarllen ein papur safbwynt ar hyn ar ein gwefan.

**Lleoliadau addysg arbenigol**

Mae cynnydd wedi bod mewn cyswllt gan deuluoedd lle mae plentyn angen lleoliad addysg arbenigol. Ond gyda lleoliadau'n aml yn llawn, mae hwn yn enghraifft arall o sut mae'r system bresennol yn fethu pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Comisiynydd yn adnewyddu ei galwadau am newid yn y maes hwn pan fydd hi'n cyhoeddi ei galwadau Maniffesto ym mis Medi, cyn etholiad y Senedd.

> *"Rwy hefyd yn ddiolchgar am eich ymateb cynhwysfawr yn arbennig y gwybodaeth ynglyn a Mesur Plant a Theuluoedd."*
>
> *"Staff have always been friendly and knowledgeable."*

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Diolch am ddarllen!

**Byddwn yn cyhoeddi ein 'Effaith yn gwaith' nesaf yn tymor yr hydref.**


01792 765600

post@childcomwales.org.uk

@childcomwales




Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales